**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@cynulliad.cymru

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Russell,

Wrth imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2019, cytunais i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am drafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r diwydiant mewn perthynas â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Mae'r mater hwn yn un sydd wedi'i ddatganoli o dan Ddeddf Cymru 2017. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar drwyddedu yn gymwys i Gymru ac i Loegr ac mae'n dyddio'n ôl i 1847 a 1976. Mae dyfodiad y rhyngrwyd, ffonau clyfar a datblygiadau technolegol eraill yn golygu nad yw'r ddeddfwriaeth a'r drefn drwyddedu bellach yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn gweithio, ac nad ydynt ychwaith yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio dyfeisiau modern eraill.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bedwar cynnig:

1. creu Safonau Cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod safonau tacsis a cherbydau hurio preifat yn amrywio ar draws 22 awdurdod lleol Cymru
2. estyn pwerau gorfodi er mwyn caniatáu i swyddogion yr awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw dacsi/gerbyd hurio preifat sy'n gweithio yn eu hardal
3. sefydlu protocolau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu teithwyr
4. y posibilrwydd o ailgyfeirio'r holl swyddogaethau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat oddi wrth yr awdurdodau lleol a'u rhoi i Gyd-awdurdod Trafnidiaeth.

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cryn gytundeb ynglŷn â chynigion 1-3, ond roedd rhywfaint o gonsensws hefyd nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell o ran diwygio'r drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat ac o ran mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant a'r rheoleiddwyr.

O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC ar gynigion i sicrhau bod y drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn un addas at y diben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â chynigion i ddiwygio deddfwriaeth, maent hefyd yn ystyried camau heblaw am ddeddfwriaeth y bydd modd eu cyflwyno'n weddol gyflym er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau presennol.

Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a chynrychiolwyr y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat, wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion hyn.

Dyma rai o'r meysydd gwaith y bwriedir eu hystyried:

- datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch
- darparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr
- rhwyddineb mynediad i’r cerbydau ar gyfer teithwyr ag anableddau
- effaith cerbydau trwyddedig ar yr amgylchedd
- problemau sy'n gysylltiedig â hurio ar draws ffiniau
- gwella pwerau gorfodi a rhannu gwybodaeth yn well
- gwella profiadau cwsmeriaid.

Ein nod yw diweddaru'r drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat er mwyn creu un safon gyson ar draws Cymru a fydd yn hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd glanach, yn gwella profiadau cwsmeriaid ac yn cynnig mynediad i bawb.

Er mwyn sicrhau na fydd ein newidiadau yn peri anawsterau anfwriadol i wasanaethau ar draws ffiniau Cymru a Lloegr, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod trefniadau'n gydnaws â'i gilydd pryd bynnag y bo modd.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport